# Cofnodion

## Is-grŵp Llygredd Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru

**Dydd Llun 18 Mai 2020**
Cyfarfod dros Skype

### 1) Croeso ac Ymddiheuriadau *(Cadeirydd)*

1a Daeth ymddiheuriadau i law gan:
Delyth Lewis-Jones, AHDB
Matt Lowe, CNC

1b Cyflwyniadau
Presenoldeb wedi'i gadarnhau:
Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)
Dennis Matheson, TFA
Steven Bradley, DCWW
Aled Jones, UAC
Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru
Creighton Harvey, FfPSG
Bob Vaughan, CNC
Sarah Hetherington, CNC
Marc Williams, CNC
Nichola Salter, CNC
Katy Simmons, CNC
Andrew Chambers, LIC
Spencer Conlon, LIC
James Ruggeri, HCC
Jamie McCoy, AHDB
Kate Snow, United Utilities
Liz Franks, Hafren Dyfrdwy
Fraser McAuley, CLA
Lee Price, Menter a Busnes
Stephen Marsh-Smith, Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL)

1c Datganiad o Fuddiant
Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas ag Eitemau ar yr Agenda.

### 2) Cofnodion y cyfarfod ar 20 Ebrill 2020 a phwyntiau gweithredu heb eu cwblhau

Esboniodd y Cadeirydd fod yr ysgrifenyddiaeth o gyfarfod mis Mawrth wedi gadael y sefydliad, a bod y recordiad gyda nodiadau wedi mynd ar goll. Roedd gan Marc Williams nodiadau cyfyngedig, a byddai'n paratoi cofnodion drafft i'w dosbarthu i aelodau'r Is-grŵp. Gofynnodd i bawb adolygu'r nodiadau ac ychwanegu atynt.

***Pwynt Gweithredu 1: Adolygu cofnodion drafft mis Mawrth ac anfon sylwadau/ychwanegiadau at Marc Williams (Pawb)***

Cofnodion: Adolygodd y Grŵp gofnodion cyfarfod mis Ebrill, ac, ar ôl gwelliant, cawsant eu cymeradwyo yn gofnod cywir.

Camau Gweithredu: Adolygodd y Cadeirydd y Camau Gweithredu a gwnaed y sylwadau a ganlyn:

Pwynt Gweithredu 7 Ebrill: Byddai Andrew Chambers yn mynd ar drywydd hyn ac yn darparu diweddariad yn y cyfarfod nesaf, neu'n rhannu gwybodaeth â'r Is-grŵp trwy neges e-bost. Soniodd Creighton Harvey fod yna gwmni yng Nghaerfyrddin yn casglu plastig gwastraff amaethyddol. Gallai Creighton ddarparu'r manylion i Andrew. Byddai Marc Williams yn anfon manylion at yr Is-grŵp am gwmni a oedd yn ailgylchu deunydd lapio amaethyddol. Cafodd wybod amdano gan Steven Bradley.

Pwynt Gweithredu 13 Ebrill: Rhoddodd Bob Vaughan ddiweddariad ar roi cyfeirnodau i gwsmeriaid pan fyddent yn adrodd am ddigwyddiad. Byddai gwybodaeth ysgrifenedig yn cael ei hanfon at yr aelodau er mwyn cau pen y mwdwl ar y cam gweithredu hwn. Roedd hwn yn fater TG yn CNC gan nad oedd yn gallu creu cofnod digwyddiadau newydd pan fyddai un a oedd eisoes yn bodoli yn dal ar agor. Roedd CNC yn ymchwilio i hyn ar y cyd â'r tîm TG er mwyn datrys y mater. Pwysleisiodd Creighton Harvey mai'r broblem yr oedd ef wedi tynnu sylw ati oedd y ffaith nad oedd gweithredwyr yn gwybod y dylent fod yn cynnig cyfeirnod i bobl a oedd yn adrodd am ddigwyddiadau. Dywedodd y byddai'n monitro'r sefyllfa pan fyddai'n adrodd am ddigwyddiad nesaf.

## 3) Diweddariad Llywodraeth Cymru

Rhoddodd Spencer Conlon ddiweddariad byr, ac esboniodd fod llawer o sylw'r Llywodraeth ar yr ymateb parhaus i Covid-19. Roedd LlC wedi ad-drefnu timau yn fewnol er mwyn ymateb a darparu cymorth o ganlyniad i'r pandemig. Roedd LlC yn cwrdd â'r Grŵp Cydnerthedd Amaethyddol bob wythnos i ddelio'n uniongyrchol â rhanddeiliaid a chael adborth pwysig gan y diwydiant. Roedd y Gweinidog yn ffonio'n uniongyrchol ar brydiau i wrando ar yr adborth hynod o bwysig.

Y cyhoeddiad diweddar oedd y cymorth i'r diwydiant llaeth, ac roedd y manylion yn cael eu datblygu ar y pryd. Roedd pawb yn ymwybodol bod y rheoliadau drafft wedi cael eu cyhoeddi ar wefan LlC, ac roedd y Gweinidog o'r farn ei bod yn bwysig iawn rhoi gwybod beth oedd yn digwydd. Byddai penderfyniad ynghylch unrhyw reoliadau yn cael ei wneud pan gredid bod hynny'n gall mewn perthynas â Covid-19. Roedd LlC yn delio â llawer iawn o ohebiaeth ar y pwnc hwn, ynghyd â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

Gofynnodd Stephen Marsh-Smith a oedd Rhaglen Gydlunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn parhau? Cafwyd diweddariad gan Sarah Hetherington, a ddywedodd fod y Rhaglen Gydlunio

yn parhau, ac yn cael ei rhedeg gan Cyswllt Ffermio, a hynny ar y cyd â ffermwyr a rheolwyr tir. Esboniodd Lee Price mai'r dyddiad cau i ffermwyr a rheolwyr tir gofrestru eu diddordeb ar wefan Menter a Busnes oedd 30 Mai. Roedd hyn eisoes wedi cael ei gyhoeddi trwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy anfon *What's On* at ffermwyr. Gwelwyd cynnydd yn y nifer a oedd yn mynd amdani, ond gofynnodd Lee i'r aelodau rannu'r wybodaeth a'r swyddi ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn cyrraedd pob ffermwr a rheolwr tir ledled Cymru.

Tynnodd Rachel Lewis-Davies sylw at y ffaith nad oedd llawer o ffermwyr yn canolbwyntio ar hynny yn y sefyllfa a oedd ohoni oherwydd yr effeithiau a oedd yn wynebu'r diwydiant o ganlyniad i Covid-19. Roedd Lee Price wedi gofyn am estyniad i'r dyddiad cau, ond roeddent yn aros am gadarnhad ynghylch cael estyniad byr. Roeddent yn deall y problemau cyfredol a oedd yn wynebu'r diwydiant, ac yn bwriadu ymweld â marchnadoedd da byw i esbonio'r sefyllfa ynghylch y rhaglen gydlunio, nad oedd bellach yn ddichonol. Roedd hyn yn hynod o bwysig i'r diwydiant yn yr hirdymor, ac roeddent yn annog cymaint â phosibl i lenwi'r arolwg gan mai hwn a fyddai'r adborth i LIC.

Gofynnodd Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL) a oedd yna unrhyw bosibilrwydd i'r arolwg gael ei lenwi gan bobl nad oeddent yn ffermwyr, ynghyd â'r rhai hynny a oedd â diddordeb yn yr amgylchedd. Esboniodd Lee Price y byddai'n rhaid i'r unigolyn feddu ar Rif Daliad er mwyn llenwi'r arolwg. Felly, roedd y broses hon yn un ar gyfer ffermwyr a rheolwyr tir yn unig yn bennaf. Dywedodd y Cadeirydd fod gan lawer o ffermwyr ddiddordeb yn yr amgylchedd hefyd.

Tynnodd CLA sylw at y ffaith ei bod wedi dosbarthu negeseuon ynghylch arolwg y Rhaglen Gydlunio i'w haelodau, ond roedd am fynegi'r un pryder ag NFU Cymru fod yna lawer o bwysau yn wynebu'r diwydiant a bod hon yn llinell amser dynn. Gallai unrhyw fath o estyniad olygu bod mwy o ffermwyr a pherchnogion tir yn ymateb i'r arolwg.

## 4) Diweddariad ar COVID-19 a'r Problemau Cysylltiedig

Ni chafwyd diweddariad ar faterion Covid-19 gan staff CNC, ond roeddent am sicrhau'r aelodau fod swyddogion yn ymateb i achosion o ddigwyddiadau llygredd. Hoffent i'r diwydiant roi sylw i osgoi digwyddiadau er mwyn lleihau'r risg i staff CNC a pherchnogion tir. Roedd archwiliadau safle arferol wedi cael eu gohirio hyd nes y byddai'n ddiogel cynnal ymweliadau. Yn ystod yr wythnosau i ddod byddai rhagor o staff CNC yn cynnal ymweliadau safle diogel, ac yn dychwelyd i fonitro unrhyw newidiadau neu effeithiau yn ystod y cyfyngiadau symud o ganlyniad i lai o drafnidiaeth, ac ati.

Roedd Creighton Harvey yn dymuno cael cadarnhad gan CNC ynghylch pryd y cyhoeddwyd y cyfarwyddyd i staff maes gyfyngu ar eu symudiadau. Roedd yn ymwybodol bod y swyddogion ddim ond yn ymateb i ddigwyddiadau os oedd yna risg i iechyd pobl. Roedd yn bryder sylweddol os nad oedd swyddogion yn mynychu achosion o ddigwyddiadau llygredd cyffredinol, gan gynnwys lle roedd pysgod yn cael eu lladd, a'r digwyddiadau hyn ddim yn cael eu cofnodi'n llawn.

***Pwynt Gweithredu 2: CNC i ymchwilio i'r dyddiadau pan roddwyd cyfarwyddyd i staff CNC beidio â mynychu digwyddiadau ac i gyfyngu presenoldeb i'r digwyddiadau a oedd â risg i iechyd pobl, a phan fyddai'r cyfyngiadau wedi dod i ben (Bob Vaughan, CNC)***

Roedd Dennis Matheson wedi adrodd am ddigwyddiad wrth Hafren Dyfrdwy pan dorrwyd pibell garthffosiaeth wrth i gae gael ei aredig wythnos ynghynt. Cafwyd ymateb cyflym gan y tîm, gan gynnwys tancer i bwmpio'r carthion o'r pentref i atal llifogydd ar y cae. Trwsiodd aelodau'r tîm y bibell y diwrnod canlynol, a rhoddwyd cyfeirnod iddynt ar y pryd. Roeddent yn effeithlon iawn yn ystod yr amseroedd anodd hyn, ac wedi atal y cae rhag cael ei lygru.

## 5) Camau Nesaf Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru

Ailbwysleisiodd y Cadeirydd y ffaith bod yr Adroddiad Dros Dro a oedd wedi cael ei gyhoeddi gan yr Is-grŵp ym mis Ebrill 2018 yn parhau i fod yn ddogfen berthnasol, a'i bod yn fandad yr oedd y grŵp yn gweithio tuag ato. Nid oedd pob aelod o blaid y rheoliadau drafft, a chyfrifoldeb sefydliadau unigol oedd lobïo Llywodraeth Cymru, ond nid oedd yr Is-grŵp hwn i wneud hynny. Fodd bynnag, cytunodd yr holl aelodau i'r argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad, a oedd yn cynnwys rheoleiddio yn un o'r pum thema i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Roedd y Cadeirydd yn deall ei bod yn anodd ymgymryd â'r holl gamau gweithredu oherwydd adnoddau, ond roedd yn ofynnol i'r Is-grŵp edrych eto ar yr argymhellion er mwyn eu symud ymlaen. Roedd CNC wedi ymrwymo i recriwtio rheolwr prosiect i sicrhau cynnydd o ran rhai o'r camau gweithredu ac i gefnogi'r grŵp.

Roedd Creighton Harvey yn derbyn egwyddor sylfaenol yr Adroddiad Dros Dro, ac roedd am dynnu sylw at y ffaith bod y gweithgarwch wedi newid, a bod rhywfaint o gynnydd wedi bod oddi ar 2018. Pan ymunodd â'r Is-grŵp am y tro cyntaf, dywedodd Stephen Marsh-Smith fod mesurau gwirfoddol yn cael eu hystyried i ddatrys llygredd amaethyddol. Yn ei farn ef, ni allai mesurau gwirfoddol ddatrys y broblem. Nid oedd y grŵp yn rhoi ystyriaeth i'r ffaith bod llygredd yn dinistrio'r amgylchedd i rywun arall, gan gynnwys pysgodfeydd.

Roedd y Cadeirydd yn deall y pwyntiau a fynegwyd ond roedd am sicrhau'r grŵp mai'r rheswm sylfaenol dros fynd i'r afael â llygredd amaethyddol oedd er mwyn diogelu'r amgylchedd, ac roedd yn ymwybodol o'r effaith sylweddol ar bysgodfeydd a bioamrywiaeth. Amlygodd y Cadeirydd fod y dull gwirfoddol yn un o bum “coes y stôl” i fynd i’r afael â llygredd amaethyddol, a bod y Safon Dŵr a luniwyd gan Lorna Davis yn ddarn o waith hynod o werthfawr i helpu’r grŵp i symud ymlaen. Roedd y Cadeirydd yn gwbl ymwybodol o'r problemau, ond dywedodd bod yna angen 'nawr i bawb weithio gyda'i gilydd a thrafod y camau nesaf er mwyn symud ymlaen.

Crybwyllodd Sarah Hetherington y ffaith nad oedd rheoliadau wedi datrys y problemau hyd hynny, ac na fyddent yn gwneud hynny chwaith wrth symud ymlaen oni bai fod pob un o'r pum llif gwaith yn cael eu cyflawni ar y cyd. Amlygodd Bob Vaughan y ffaith bod CNC, yn unol â chanllawiau'r llywodraeth, yn dilyn yr Egwyddorion Rheoleiddio. Roedd hyn yn cynnwys camau gorfodi, ond roedd yn rhychwantu mesurau llawer ehangach, ac yn rhoi ystyriaeth i'r ystod lawn o offer a oedd ar gael i fynd i'r afael â phroblemau. Esboniodd Bob Vaughan y modd i symud y gwaith yn ei flaen a chael mewnbwn gan yr holl aelodau. Dywedodd bod ganddynt syniad o'r rheoliadau a gyhoeddwyd gan y Gweinidog, a bod angen iddynt bellach symud y meysydd gwaith eraill yn eu blaen.

***Pwynt Gweithredu 3: Adolygu'r argymhellion yn yr Adroddiad Dros Dro i 1) sicrhau eu bod yn dal i gyflawni'r nod o fynd i'r afael â llygredd amaethyddol, 2) blaenoriaethu'r problemau, 3) o ran y modd i symud y rhain yn eu blaen yn y grŵp, a rhoi adborth i Bob Vaughan a Marc Williams erbyn cyfarfod nesaf Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (Pawb)***

Dymunai Spencer Conlon egluro nad oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud gan y Gweinidog ar y rheoliadau, ac mai dim ond drafft oedd yr hyn a oedd wedi'i gyhoeddi. Roedd y Gweinidog hwn yn deall bod mynd i'r afael â'r mater dan sylw yn broses amlochrog, ac mai dim ond un agwedd oedd y rheoliadau. Cytunodd Spencer i edrych ar yr argymhellion eto a symud y camau gweithredu yn eu blaen er mwyn mynd i'r afael â'r mater.

Tynnodd Bob Vaughan sylw at y ffaith bod y gwaith yn dibynnu ar bob aelod o'r Is-grŵp yn symud yr argymhellion yn eu blaen, a dywedodd bod gan bawb yr uchelgais i fynd i'r afael â'r broblem. Roedd yna gryn dipyn o waith o'u blaenau i ddelio â hyn ac roedd yn ofynnol i bob aelod chwarae rôl.

Roedd NFU Cymru wedi bod yn absennol o un neu ddau o gyfarfodydd oherwydd ei fod yn cefnogi aelodau trwy'r argyfwng Covid-19, ac nid oedd mewn sefyllfa i ymrwymo i adolygu'r argymhellion yn yr Adroddiad Dros Dro. Fodd bynnag, roedd yn ymgysylltu'n llawn â'r grŵp ac yn cefnogi'r holl argymhellion. Pecyn o fesurau oedd y rhain, yr oedd y grŵp cyfan wedi cytuno iddynt, ac nid oeddent i gael eu hystyried yn broses o ddewis rhai argymhellion yn hytrach nag eraill.

## 6) Diweddariad Cyfathrebu CNC

Rhoddodd Katy Simmons drosolwg byr o'r gwaith yr oedd wedi bod yn ymwneud ag ef cyn ymuno ag CNC. A hithau'n Uwch-swyddog Cyfathrebu, byddai'n llunio'r Cynllun Cyfathrebu ar gyfer yr Is-grŵp. Roedd amcanion y cynllun wedi cael eu drafftio, ynghyd â negeseuon allweddol i weithio arnynt a rannwyd â'r Is-grŵp. Byddai dull pecyn cymorth yn ddefnyddiol i'r Is-grŵp, a oedd yn cynnwys negeseuon safonol ar gyfer ymholiadau gan y wasg ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Roedd syniadau eraill yn cynnwys nodi ffermwyr allweddol i gyflwyno negeseuon, a llunio rhagor o fideos gyda chyngor ynddynt. Hoffai Katy Simmons wneud mwy o waith ar gylchlythyrau, ac archwilio ai hon oedd y ffordd orau o gyfathrebu a darparu negeseuon i ffermwyr a rheolwyr tir. Er mwyn i hyn weithio, byddai angen i bob aelod roi mewnbwn a darparu negeseuon i'w hanfon.

Hoffai Katy Simmons gael cymorth gan aelodau o ran pa sianeli cyfathrebu a grwpiau cyfryngau cymdeithasol a oedd eisoes ar gael, dirnadaethau mewn perthynas â'r gynulleidfa, a'r modd yr hoffai ffermwyr iddynt gyfathrebu â nhw. Byddai adolygiad yn cael ei gynnal o'r graffigwaith, y taflenni a'r llenyddiaeth a oedd ar waith ar y pryd er mwyn sicrhau cysondeb a chael gwybod a ddylid creu deunydd newydd ai peidio.

***Pwynt Gweithredu 4: Unrhyw sylwadau neu ychwanegiadau at amcanion y Cynllun Cyfathrebu i'w rhoi i Katy Simmons, CNC (Pawb)***

***Pwynt Gweithredu 5: Dosbarthu'r Cynllun Cyfathrebu drafft i'r Is-grŵp cyn y cyfarfod nesaf ym mis Mehefin (Katy Simmons, CNC)***

Mynegodd Jamie McCoy ymholiad a oedd yn ymwneud â’r llinell amser o ddarparu negeseuon i ffermwyr, a hynny am ei bod yn ymwybodol o ba mor anodd oedd cyfathrebu â ffermwyr mewn modd effeithiol ac, yn wir, o ddatblygu unrhyw newid mewn ymddygiad trwy gyfathrebu. Byddai hyn yn canolbwyntio ar slyri, a'r gynulleidfa darged a fyddai'r ffermwyr llaeth, a oedd yn wynebu heriau anodd gyda Covid-19 a'r ansicrwydd ynghylch gofynion storio yn y rheoliadau newydd. Felly, roedd y llinell amser yn hollbwysig a rhaid oedd rhoi

sylw i ystyriaethau eraill. Cytunodd Katy Simmons y byddai yna ddarpariaethau ar waith mewn perthynas â'r hyn y gellid ei wneud yn ystod Covid-19 ac ar ôl y pandemig. Ar y pryd, roedd yr AHDB yn llunio tudalennau Cwestiynau Cyffredin ar yr Amgylchedd ar ei wefan, a hoffai gydweithio i sicrhau cysondeb.

Dywedodd Lee Price ei bod yn bwysig llunio negeseuon cadarnhaol am yr hyn a wnaed gan y sefydliadau gwahanol a ffermwyr, ac am y cyngor a'r canllawiau a oedd ar gael ar y pryd. Trwy ddechrau gyda dull cadarnhaol, byddai hyn o gymorth i ymgysylltu â'r sector ffermio a darparu negeseuon am arferion da a oedd wedi cael eu rhoi ar waith ac y gellid eu gweithredu ar ffermydd, ynghyd â gwybodaeth am le i ofyn am ragor o gyngor.

Roedd Kate Snow yn ymwybodol o'r heriau anodd yr oedd ffermwyr yn eu hwynebu gyda Covid-19, ond roedd yna broblemau parhaol o ran storio slyri, ac ni ellid gohirio'r gwaith hwnnw gan y byddai digwyddiadau'n dal i godi. Roedd angen iddynt fynd i'r afael â'r materion hyn mewn modd sensitif ond heb oedi'r gwaith hanfodol. Mewn ymateb i'r sylw hwn, tynnodd Rachel Lewis-Davies sylw at y ffaith y cafwyd tair rownd o ganllawiau cynllunio atodol (CCA) a oedd yn rhoi blaenoriaeth i gymorth grant ar gyfer ansawdd dŵr, a gofynnodd a allai LIC ddarparu diweddariad ar bob rownd, a'i statws, yn y cyfarfod nesaf, ynghyd ag unrhyw gynlluniau a drefnwyd ar gyfer rownd CCA arall.

***Pwynt Gweithredu 6: Yn y cyfarfod nesaf, Llywodraeth Cymru i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am rowndiau CCA ac unrhyw gynllun yn y dyfodol (Spencer Conlon/Andrew Chambers, LIC)***

Tynnodd Dennis Matheson sylw at y ffaith mai'r ffermwyr pwysicaf i'w targedu o ran cyfathrebiadau oedd y rhai nad oeddent ar-lein, nad oeddent yn cael cylchlythyrau, ac nad oeddent yn mynychu cyfarfodydd. Cytunodd Katy Simmons na ddylai popeth gael ei ddarparu ar-lein a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol, ond y dylid archwilio dulliau eraill o gyfathrebu.

Dywedodd Stephen Marsh-Smith fod y diwydiant ffermio mewn sefyllfa anodd cyn Covid-19 oherwydd tanariannu ac am nad oedd yn cael pris teg am ei gynnyrch. O ganlyniad, roedd ffermwyr yn amharod i fuddsoddi yn y seilwaith a allai leihau'r llygredd. Un datrysiad fyddai cael pris teilwng am gynnyrch yn y farchnad, heb orgynhyrchu. Pe byddai ffermwyr yn cael tomen o wybodaeth trwy'r post neu ar-lein, y pryder fyddai y byddai'n cael ei defnyddio yn lle yr hyn a oedd yn ofynnol i ddatrys problemau ar ffermydd ac i lywio tuag at gynhyrchu cynaliadwy.

## 7) Ymgynghoriad Aer Glân – Sylwadau gan Dennis Matheson

Mewn ymateb i'r Ymgynghoriad Aer Glân, roedd Dennis Matheson wedi llunio dogfen gynhwysfawr a rhoi sylwadau arni, a chafodd ei dosbarthu i aelodau'r grŵp. Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith bod yr Is-grŵp wedi canolbwyntio mwy ar slyri yn mynd i ddŵr yn y gorffennol, ond bod hyn, hefyd, yn cael effaith ar yr aer. Mynegodd Dennis Matheson bryderon wrth adran yr amgylchedd, lle nododd fod achosion llygredd gronynnol yr un fath â'r problemau mewn perthynas â dŵr a phridd, a bod y camau unioni yn debyg i'r hyn a oedd yn cael ei gynnwys mewn Cynllun Rheoli Maethynnau ar gyfer ffermydd. Nid oedd yr ymgynghoriad yn crybwyll gwaith y grŵp hwn, er y byddai lleihau llygredd slyri i ddŵr yn helpu i liniaru llygredd aer. Un o'r prif bryderon oedd y cynnig i sefydlu is-grŵp newydd i ddelio â'r holl lygredd amaethyddol.

Roedd CNC wedi ymateb i'r ymgynghoriad, ac wedi cynnwys safbwyntiau'r grŵp hwn a phroblemau dŵr cyffredinol.

Diolchodd CLA i Dennis Matheson am ei ymateb manwl, a dweud bod gan y sefydliad bwyntiau y byddai'n cytuno ac yn anghytuno â nhw. Ymatebodd CLA i'r ymgynghoriad, gan dynnu sylw at y ffaith bod y cyfarfod yr oeddent yn ei fynychu yn canolbwyntio mwy ar sectorau eraill y tu allan i amaethyddiaeth. Roedd yn bendant yn werth ymateb i'r ymgynghoriad, a mynegwyd pryder fod yna is-grŵp newydd wedi'i ffurfio, a oedd yn ailadrodd y gwaith a wnaed eisoes gan y grŵp hwn.

Ymatebodd NFU Cymru i'r ymgynghoriad, ond gofynnodd pam yr oedd CNC yn archwilio'r her amgylcheddol cyn yr ymgynghoriad cyfredol ar y canllawiau amonia. Roedd yn nodi yn yr Ymgynghoriad Aer Glân y byddai LlC "yn gweithio gydag CNC i archwilio maint yr her amgylcheddol yn y sector ffermio dwys, a'r cyfle i gryfhau rheolaeth ar allyriadau amonia o'r gosodiadau hyn". Nid oedd CNC yn gallu darparu ateb yn ystod y cyfarfod, ond byddai'n gofyn am ragor o wybodaeth i'w rhannu â Rachel Lewis-Davies.

***Pwynt Gweithredu 7: Dosbarthu gwybodaeth o ran y modd y byddai CNC yn archwilio graddfa'r her amgylcheddol yng nghyd-destun yr ymgynghoriad cyfredol ar y canllawiau amonia i Rachel Lewis-Davies (Marc Williams, CNC)***

Cytunai WEL â'r sylwadau a wnaed gan Dennis ac y dylid gwneud y gwaith ar y cyd. Esboniodd Bob Vaughan fod yr Adroddiad Dros Dro yn 2018 wedi canolbwyntio ar slyri i ddŵr yn unig gan fod honno'n her fawr ynddi'i hun i fynd i'r afael â hi, ond cytunai y dylid edrych ar ddŵr ac aer gyda'i gilydd.

## 8) Y Prosiect Llaeth

Rhoddodd Marc Williams ddiweddariad ar y Prosiect Llaeth ar ran Matt Lowe. Roedd pob ymweliad fferm wedi cael ei ohirio am y tro oherwydd yr amgylchiadau cyfredol, ond roedd y Swyddogion Llaeth ar gael dros y ffôn neu drwy neges e-bost i ateb cwestiynau a chynnig cyngor. Pan fyddai'n ddiogel gwneud hynny, ac yn unol â chyngor gan LlC, byddai'r ymweliadau llaeth yn ailddechrau.

Roedd y Swyddogion Llaeth bellach yn y broses o gyhoeddi adroddiadau a oedd yn disgwyl sylw o ymweliadau a wnaed yn union cyn y cyfyngiadau symud. Fodd bynnag, roedd yna adroddiadau yn disgwyl sylw o ymweliadau a wnaed gan Swyddogion Llaeth blaenorol, nad oeddent bellach yn rhan o'r prosiect. Yn anffodus, oherwydd natur yr ymweliad fferm, nid oedd yn bosibl i Swyddog nad oedd yn bresennol yn ystod yr ymweliad ysgrifennu adroddiad manwl gywir. Roedd y Swyddogion Llaeth hefyd yn cysylltu â ffermwyr a oedd â gofynion gwella yn disgwyl sylw, ac yn trafod eu cynlluniau.

Ychydig cyn y cyfyngiadau symud, roedd cyfanswm o 688 o ymweliadau wedi cael eu cwblhau, ac erbyn diwedd mis Ebrill roedd 603 o adroddiadau wedi cael eu hanfon at ffermwyr. Gallai'r ffigur hwnnw fod yn uwch bellach wrth i ragor o adroddiadau gael eu cwblhau a'u hadolygu gan Uwch-swyddogion. Roedd cyfanswm o naw Swyddog Llaeth wedi gadael y prosiect er mwyn cael swyddi parhaol. Bellach, roedd saith o'r wyth Swyddog Llaeth a recriwtiwyd yn ddiweddar yn parhau yn eu swyddi, felly'r bwriad fyddai recriwtio rhagor o staff.

Mynegodd Creighton Harvey bryderon ynghylch y ffermydd yr ymwelwyd â nhw eisoes gan Swyddogion nad oeddent bellach yn eu swyddi, ac awgrymodd ei bod yn ofynnol ymweld â nhw eto i lunio adroddiad cywir. Dylai'r Swyddogion fod ar gontract parhaol am eu bod yn symud i swyddi eraill, gan arwain at golli cymhwysedd a phrofiad. Roedd Bob Vaughan yn cydnabod y pryderon hynny, a chadarnhaodd y byddai'n ofynnol cynllunio i ailymweld. Ariennid y prosiect gan LIC am Flwyddyn Ariannol, sef y rheswm pam yr oedd y Swyddogion ar gontract dros dro, ac roedd yn ofynnol i CNC wthio'n galed i gynnal y cyllid hwnnw. Gofynnodd Creighton Harvey faint o ffermydd a allai fod yn destun ailymweliad, a dywedodd Bob Vaughan fod y nifer yn llai na 50.

Tynnodd Rachel Lewis-Davies sylw at y ffaith y gallai ymweliadau neu archwiliadau fferm gan sefydliadau beri straen mawr i ffermwyr, yn enwedig pan oeddent dan bwysau oherwydd sawl rheoliad gwahanol. Roedd yn siomedig y byddai'n rhaid ailadrodd ymweliadau oherwydd methiant swyddogion i gwblhau adroddiadau cyn symud i rôl newydd. Byddai'n ddefnyddiol cael manylion cyswllt y Swyddogion Llaeth cyfredol er mwyn i ffermwyr gysylltu â nhw'n rhagweithiol i gael cyngor, yn debyg i'r gwasanaeth cyswllt fferm. Roedd tîm arlywyddol NFU Cymru wedi gofyn am grynodeb o'r canfyddiadau diweddar mewn perthynas â'r Prosiect Llaeth gan y cyfeirid atynt mewn cyfarfodydd.

***Pwynt Gweithredu 8: Rhoi manylion cyswllt y Swyddogion Llaeth i'r Undebau Ffermio er mwyn i ffermwyr allu gofyn am gyngor (Matt Lowe, CNC)***

***Pwynt Gweithredu 9: Crynodeb o ganfyddiadau'r Prosiect Llaeth hyd hynny i'w rannu ag aelodau'r Is-grŵp (Matt Lowe, CNC)***

Gofynnodd Steven Bradley ai bwriad y prosiect oedd ymweld â phob fferm laeth ledled Cymru o fewn yr amserlenni. Cadarnhaodd Bob Vaughan mai'r nod oedd cyrraedd y targed hwnnw ond bod cyfyngiadau symud Covid-19 wedi llesteirio'r ymweliadau cyfredol.

Tynnodd Nik Salter sylw at y ffaith bod pedwar aelod o'r prosiect gwreiddiol bellach yn Swyddogion yr Amgylchedd parhaol, ac y byddent yn parhau i ddelio â ffermydd llaeth. Pwynt arall oedd bod digwyddiadau llygredd yn dod i law CNC gan ffermydd cig eidion, ac nid yn unig gan y sector llaeth. Roedd y gofynion cyfreithiol ar gyfer cyfleusterau trin slyri yn berthnasol i'r ddau sector fel ei gilydd.

Gofynnodd Dennis Matheson a oedd y Swyddogion Llaeth yn cynghori ar y rheoliadau cyfredol neu'r rheoliadau drafft gan fod yna bryderon ynghylch cynyddu'r seilwaith storio slyri. Dywedodd CNC mai dim ond y rheoliadau cyfredol y gallai ei Swyddogion eu defnyddio i gynghori a gorfodi. Fodd bynnag, roedd yr Adroddiadau Llaeth yn tynnu sylw at y ffaith bod y gofynion cyfredol yn gofyn am i slyri gael ei storio am bedwar mis, ond y byddai'n rhaid i ffermwyr fod yn ymwybodol o'r rheoliadau arfaethedig a oedd yn gofyn am storio am bum mis. Roedd hyn yn rhoi CNC mewn sefyllfa anodd o ran cynghori ffermwyr, ond gan ei fod yn gorff rheoleiddio, dim ond y rheoliadau cyfredol y gellid eu gorfodi.

## 9) Newidiadau mewn Arferion Ffermio Llaeth

Er gwybodaeth i'r Is-grŵp yn unig, gan y tynnwyd sylw at y mater gan un o Uwch-swyddogion yr Amgylchedd, trafododd Nik Salter, yn gryno, y newidiadau mewn arferion ffermio llaeth. Roedd CNC yn gweld ffermydd llaeth ar raddfa fawr debyg i Seland Newydd yn ymddangos yma ac acw yng Nghymru. Roedd ffermwyr newydd yn symud i ardaloedd ar gytundeb

tenantiaeth fferm byrdymor, gan glirio tir helaeth, creu traciau a chael gwared ar berthi/wrychoedd, a hynny fel arfer heb unrhyw hysbysiad cynllunio i'r awdurdodau. Roedd y rhain yn cael effaith sylweddol ar fioamrywiaeth ac yn achosi llygredd gwasgaredig. Roedd morlynnoedd slyri yn cael eu creu heb wybodaeth flaenorol gan CNC na'r awdurdodau cynllunio, ac nad oeddent yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol (SSAFO). Roedd CNC am dynnu hyn i sylw aelodau'r Is-grŵp gan ei bod yn broblem barhaus.

Dywedodd y Cadeirydd y dylai fod yna fwy o ganllawiau ar gael i ffermwyr ar ba ganiatâd cynllunio a oedd yn ofynnol ar ffermydd. Efallai nad oeddent yn ymwybodol y byddai angen caniatâd cynllunio ar gyfer traciau. Byddai Nik Salter yn tynnu sylw at y mater yng Nghyfarfod Ffermio Dwys y Nodyn Cyngor Technegol. Ym marn Creighton Harvey, roedd yr wybodaeth a ddarparwyd gan Nik Salter yn dystiolaeth eglur o'r angen i unrhyw reoliad fod yn un ar gyfer Cymru benbaladr.

***Pwynt Gweithredu 10: Dosbarthu nodyn briffio ar y newidiadau mewn Arferion Ffermio Llaeth yng Nghymru i aelodau'r Is-grŵp (Nik Salter, CNC)***

Mynegodd Stephen Marsh-Smith ei bryderon ynghylch cael gwared ar wrychoedd ac aredig hen borfeydd ar draws Maesyfed, nad ydynt yn y sector llaeth, a hoffai i CNC wneud sylwadau ar y gofynion a'r camau y mae'n rhaid i ffermwyr eu cymryd. Dywedodd Sarah Hetherington fod yr awdurdodau lleol yn gorfodi cael gwared ar wrychoedd, a bod hyn yn cael ei gynnwys o dan amodau Trawsgydymffurfio. Roedd newidiadau yn y defnydd o borfa yn cael eu rheoleiddio o dan reoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, a oedd yn cael eu sgrinio a'u gorfodi gan LIC. Cadarnhaodd Andrew Chambers fod cael gwared ar wrychoedd yn drosedd o dan amodau Trawsgydymffurfio a'r Rheoliadau Perthi, ac yr adroddir yn uniongyrchol amdanynt i LIC. Byddai newidiadau i dir cynefin lled-naturiol yn ei gwneud yn ofynnol ymgymryd â chais sgrinio cyn i unrhyw waith gael ei wneud. Anogwyd pawb gan Andrew i roi gwybod i LIC, neu i adrodd yn uniongyrchol i Andrew, am unrhyw newidiadau i dir cynefin ac achosion o ddraenio tir heb ei drin.

## 10) Trefniadau ar gyfer cyfarfodydd yr Is-grŵp yn y dyfodol

- Dydd Llun 15 Mehefin
- Dydd Llun 13 Gorffennaf
- Dydd Llun 17 Awst
- Dydd Llun 14 Medi
- Dydd Llun 19 Hydref
- Dydd Llun 16 Tachwedd
- Dydd Llun 14 Rhagfyr

## 11) Diweddariad ar weithgareddau dyddiadur perthnasol neu ddigwyddiadau wedi'u canslo/gohirio

Dim diweddariad

## Unrhyw fater arall

Gofynnodd Jamie McCoy am yr wybodaeth ddiweddaraf am achosion o ddigwyddiadau llygredd amaethyddol ac ystadegau blynyddol. Cadarnhaodd Marc Williams y byddai hyn yn cael ei ychwanegu at yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

***Pwynt Gweithredu 11: Ychwanegu Achosion o Ddigwyddiadau Llygredd Amaethyddol yn eitem ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf yr Is-grŵp (Marc Williams, CNC)***

Roedd Marc Williams am i'r Is-grŵp fod yn ymwybodol bod CNC wedi rhyddhau'r ymgynghoriad ar y newidiadau i'r canllawiau i asesu effaith amonia a nitrogen a oedd yn deillio o ddatblygiadau amaethyddol. Roedd y manylion ar wefan CNC, ynghyd â'r cyfeiriad e-bost ar gyfer ymateb gyda sylwadau. Gofynnodd Rachel Lewis Davies a oedd CNC wedi cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gyd-fynd â'r ymgynghoriad, ac a fyddai yna unrhyw ddigwyddiadau ymgynghori rhithwir ar gael i drafod y manylion technegol? Roedd gan NFU Cymru adborth ac astudiaethau achos o'r modd yr oedd CNC wedi bod yn gweithredu'r canllawiau cyfredol. Roedd yn pryderu ynghylch y newidiadau i'r canllawiau, ynghyd â'r anawsterau i fusnesau fferm ymgysylltu â darn technegol iawn o waith.

***Pwynt Gweithredu 12: CNC i ymchwilio ac ymateb i gwestiynau a ofynnwyd gan NFU Cymru ynghylch yr Ymgynghoriad i'r Canllawiau Amonia (Nik Salter, CNC)***

---

**Daeth y cyfarfod i ben.**

---